# EUR(2) 09-04(P3)

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**Dyddiad:** 9 Rhagfyr 2004
**Amser:** 09.00am - 12.15
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
**Teitl:** Yr Undeb Ewropeaidd Estynedig: Y Camau Nesaf

## Diben

1. Cynhyrchwyd y papur hwn ar gais y Pwyllgor, i edrych ar oblygiadau'r penderfyniad a wnaed yn ddiweddar i ehangu'r Undeb Ewropeaidd (UE) a'r rhagolygon hirdymor o ran ehangu'r Undeb Ewropeaidd (UE) ymhellach.

## Crynodeb

2. Cryfhawyd undod cyfandir Ewrop ymhellach wrth i ddeg Aelod-wladwriaeth arall ymuno â'r UE ar 1 Mai 2004. Mae'r dadleuon hanesyddol a gwleidyddol o blaid yr ehangu hwn yn gryf iawn: mae'n hybu heddwch, ffyniant, sefydlogrwydd a diogelwch.

3. Mae'r UE wedi ymrwymo i groesawu unrhyw wlad Ewropeaidd sy'n awyddus i ymuno â hi. Roedd yr ehangu eleni yn dilyn cyfres o benderfyniadau i ehangu'r UE ers ei sefydlu ym 1951 a'i gwelodd yn tyfu o'r chwe aelod gwreiddiol i'r pum aelod ar hugain presennol.

## Y Cefndir

4. Gwelwyd aileni dramatig ar 1 Mai eleni wrth i Ewrop uno unwaith eto. Ymunodd wyth gwlad o ganolbarth a dwyrain Ewrop, ynghyd â Malta a Cyprus, â'r UE gan ychwanegu mwy nag a wnaed erioed o'r blaen at gwmpas ac amrywiaeth yr undeb a chan drawsnewid map Ewrop. Mae'r UE yn awr yn rhannu ffin â Belarws a'r Ukrain ta bo Cyprus, oddi ar arfordir Twrci, yn agosach at Syria na Gwlad Groeg. Ar hyd y miloedd o gilometrau sy'n ffurfio ffiniau newydd yr UE mae grwpiau amrywiol a phroblematig o wledydd, cymdogion newydd sy'n wynebu problemau difrifol o ran newidiadau economaidd a gwleidyddol. Mae'r UE yn wynebu cryn her wrth iddi ddatblygu perthynas gadarnhaol ac adeiladol gyda'r cymdogion newydd hyn.

## Ewrop Newydd: Chwe mis yn ddiweddarach

5. Mae'r Undeb o bum gwlad ar hugain yn wahanol iawn i'r Undeb o bymtheg gwlad a fodolai ychydig fisoedd yn ôl, nid yn unig oherwydd bod rhagor o aelodau, ond hefyd oherwydd bod ei sefydliadau wedi newid. Mae'r UE yn dal yn ceisio ymdopi â sioc yr ehangu, a fu'n broses anodd.

6. Dyma gyfle gwych i'r aelod-wladwriaethau newydd sydd wedi gwneud cryn ymdrech i fodloni'r meini prawf ymuno, ond sy'n dal mewn cyfnod o addasu'n wleidyddol ac yn economaidd. Yn gyffredinol, mae'r aelodau newydd yn dal yn dysgu sut i weithredu yn y Cyngor, gan gynnwys siarad o blaid mesurau y maent yn eu cefnogi, ac nid oes fawr o dystiolaeth eu bod yn gweithio mewn grwpiau neu flociau. Y mae bron yn anorfod y byddwn yn gweld rhai agweddau ar lunio polisïau'r UE yn arafu wrth i'r aelodau newydd wrthwynebu'r ddeddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â'r amgylchedd, materion cymdeithasol a chyflogaeth sy'n cynyddu costau llafur ac sy'n golygu eu bod nhw'n llai cystadleuol.

7. Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn awr yn cytuno mai di-sail oedd yr ofnau cychwynnol y byddai ymfudwyr yn heidio yn eu miloedd o'r dwyrain i'r gorllewin. Nid oes tuedd ymhlith pobl Ewrop i symud i wledydd eraill, dim ond rhwng 2% a 3% sy'n gweithio yn un o wledydd eraill yr UE, ac ymddengys nad yw pobl Dwyrain Ewrop yn wahanol yn hyn o beth. Ar ôl yr ymfudo cychwynnol, mae nifer o astudiaethau yn rhagweld na fydd rhagor na 100,000 - i 200,000 o bobl o Ddwyrain Ewrop yn symud i'r Gorllewin bob blwyddyn unwaith y bydd y cyfyngiadau wedi'u codi (mae angen trwydded waith ym mhob gwlad UE ac eithrio'r DU, Iwerddon a Sweden, er bod y tair gwlad yn gofyn i geiswyr gwaith o'r aelod-wladwriaethau newydd gofrestru â'r awdurdodau ac yn cyfyngu cryn dipyn ar eu hawliau i gael budd-daliadau). Yn y DU, cofrestrodd tua 91,000 â'r "cynllun cofrestru gweithwyr newydd" yn ystod y pum mis hyd at fis Medi, ac o'r rhain, roedd 50% ohonynt newydd symud i'r wlad. Roedd y gweddill wedi bod yn gweithio yn y DU naill ai'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Pobl o wlad Pwyl oedd y gyfran fwyaf a gofrestrodd, sef tua 56%. Yn ôl bob tebyg, pobl ifanc, a gafodd addysg dda ac sy'n amlieithog, yw'r rhan fwyaf sy'n symud.

8. Yn ddiddorol iawn, mae'r ehangu wedi newid ymddygiad rhai o'r aelod-wladwriaethau. Yn yr Almaen, penderfynodd Siemens gynyddu eu horiau gwaith o 35 awr yr wythnos i 40 awr yr wythnos rhag colli gwaith i Hwngari. Yn ôl gwaith ymchwil, mae dros 40% o holl gwmnïau gweithgynhyrchu'r Almaen eisoes yn cynhyrchu yn Nwyrain Ewrop ac mae gan 90% gynlluniau i symud mwy o'r gwaith cynhyrchu dramor yn ystod y pum mlynedd nesaf.

9 . Wrth i'r canolbwynt daearyddol symud o ganlyniad i'r ehangu, mae rhai yn credu bod y canolbwynt gwleidyddol wedi symud hefyd, ac y bydd yr ehangu yn arwain at her hirdymor i arweinyddiaeth Ffrainc a'r Almaen yn y pen draw ac yn gwanhau eu dylanwad. Amser a ddengys a oes sail i'r gred hon, ond chwe mis yn ddiweddarach, mae'n hen bryd inni ddechrau trin yr Aelod -wladwriaethau newydd fel partneriaid, yn yr un modd ag y mae'n perthynas â Latfia wedi datblygu, yn hytrach na'u trin fel gwladwriaethau sydd newydd eu derbyn.

## Ehangu yn y Dyfodol

10. Mae'r aelod-wladwriaethau yn anghytuno ynghylch a ddylid ehangu'r UE ymhellach wedi i Bwlgaria

a Rwmania ymuno, yn ôl y disgwyl, yn 2007, a Chroatia, o bosibl yn 2009 (yr amod allweddol yma yw ei bod yn parhau i gydweithredu â Thribiwnlys Troseddol Rhyngwladol Iwgoslafia). Prin fydd yr effaith os bydd y gwledydd hyn yn ymuno â'r UE ond byddai derbyn Twrci yn fater gwahanol iawn, ac mae Albania, Serbia a Montenegro, Macedonia, Moldafia, Ukrain, Belarws a Bosnia-Herzegovina yn aros am eu cyfle hefyd. Mae rhai yn amharod iawn i ystyried ehangu'r Cronfeydd Cydlyniant i Moldafia, sydd, gyda CMC o 1% y pen o lefelau presennol yr UE, wedi cymryd teitl anffodus Albania oddi arni, sef gwlad dlotaf Ewrop.

11. Ym mis Hydref, argymhellodd y Comisiwn Ewropeaidd fod Twrci yn gymwys i ddechrau trafodaethau i gael ei derbyn i'r UE a chaiff yr aelod-wladwriaethau ddweud eu barn yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 17 Rhagfyr, ar ôl ystyried adroddiad ac argymhellion y Comisiwn. Er bod cynnydd digonol wedi'i wneud i gyfiawnhau dechrau'r trafodaethau derbyn, mae newid amlwg yn y modd y mae'r UE yn delio â darpar aelodau. Am y tro cyntaf, bydd yr UE yn cyflwyno cymal i sicrhau y bydd modd gohirio'r trafodaethau os bydd darpar aelod yn gweithredu mewn ffordd sy'n groes i egwyddorion democratiaeth, parch tuag at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol.

12. Yn sylfaenol, mae tri chanlyniad posibl i gyfarfod y Cyngor fis Rhagfyr:

- trafodaethau i ddechrau'n ddi-oed;
- trafodaethau i ddechrau ar ôl rhywfaint o oedi a/neu amodau;
- dim trafodaethau a statws o natur wahanol i Dwrci.

Waeth beth fo'r canlyniad, bydd angen i unrhyw benderfyniad gael cefnogaeth unfrydol yr holl aelod-wladwriaethau.

13. Mae llywodraeth y DU yn ystyried y byddai caniatáu i Dwrci integreiddio mwy ag Ewrop yn hybu diogelwch a ffyniant yn sylweddol. Byddai hefyd yn dangos nad oes dim yn anghydnaws rhwng ymarfer Islam mewn gwladwriaeth secwlar a glynu wrth werthoedd democratiaeth Ewropeaidd a pharchu hawliau dynol a chyfraith a threfn. Cyflwynodd Twrci ddiwygiadau eang yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi trawsnewid y wlad. Mae llywodraeth y DU yn gobeithio y bydd y Cyngor Ewropeaidd yn cytuno fis Rhagfyr i ddechrau'r trafodaethau yn ddi-oed

14. Mae'r ddadl yngln ag aelodaeth Twrci yn debygol o fod yn un fywiog. Dyma'r mater pwysicaf a'r mwyaf sensitif sy'n wynebu'r UE. Dim ond rhan fechan o'r wlad sydd yn Ewrop. Mae 95% o'i phoblogaeth o oddeutu 70miliwn y tu allan i Ewrop. Mae'r brif ddinas hefyd y tu allan i Ewrop ac mae'r wlad yn rhannu ffin â Syria, Iran ac Iraq. Gwlad Fwslemaidd yw hi'n bennaf, a hon fyddai'r wlad fwyaf poblog a'r wlad dlotaf yn yr UE. Mae'n anodd rhagweld beth fyddai'r effaith ariannol pe bai Twrci yn cael ei derbyn i'r UE, ond mae'n glir y byddai'n cael effaith sylweddol. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost glir ddamcaniaethol yn 2025 yn cyfateb i rhwng 0.1% a 0.17% o CMC yr UE25 bryd hynny, sef tua16.5 i 27.9 biliwn ewro.

15. Portreadwyd yr ehangu diweddar nid yn unig fel digwyddiad hanesyddol i ailuno Ewrop ond hefyd

fel digwyddiad a oedd yn cydgyfnerthu democratiaeth yng nghanolbarth a dwyrain Ewrop a chydag ymchwydd o ewyllys da tuag at y deg gwlad llwyddwyd i ennill y dydd. Mae'n bosibl na fydd yr un ewyllys da tuag at unrhyw ehangu yn y dyfodol, ac mae arolygon barn mewn rhai aelod-wladwriaethau yn dangos gwrthwynebiad agored i'r syniad o dderbyn Twrci; mae cryn dipyn o waith i'w wneud i ennill cefnogaeth gyffredinol. Mae'n sir y caiff etholaeth yr UE gyfle i ddweud ei barn yngln â'r llwybr y maent am ei ddilyn yn ddaearyddol ac yn wleidyddol a maes o law efallai y bydd angen cydnabod mai cymdogion yn unig yw rhai gwledydd yn hytrach na darpar aelodau. Wedi'r cyfan, gwrthodwyd i Moroco ymuno ym 1987, am resymau a oedd yn ymwneud, yn ôl pob golwg, yn gyfan gwbl â daearyddiaeth.

## Casgliad

16. Er y bydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag ymgorffori deg o wledydd newydd yn arwain yr UE o bosibl i ailfeddwl ynghylch ehangu ymhellach i'r dwyrain, byddai'n llawer llai dadleuol troi'n ôl i gyfeiriad yr hen Ewrop ac ystyried ceisiadau gan Norwy, y Swistir a Gwlad yr Iâ. Mae Norwy a’r Swistir wedi cyflwyno ceisiadau, ac wedi'u tynnu'n ôl, cyn hyn.

17. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff sy'n gweithio mewn partneriaeth â hi wedi buddsoddi'n sylweddol yn y cylch ehangu diwethaf a does dim amheuaeth na fydd galwadau ar i Gymru ei gosod ei hun fel "un o'r ceffylau blaen" o ran yr Ewrop estynedig newydd. Byddai manteision inni wneud hynny, ac ni ddylem droi'n cefnau ar gyfleoedd inni ddysgu mwy am y gwledydd a allai fod yn ymuno â'r UE yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r adnoddau sydd ar gael inni, felly mae angen inni fod yn ofalus iawn wrth bennu'n blaenoriaethau. Yn y tymor byr, credwn y dylem, yn y lle cyntaf, gadarnhau a chydgyfnerthu'r berthynas sy'n datblygu â'r deg aelod newydd, yn enwedig y berthynas â Latfia a Silesia a thynnwn sylw'r aelodau at y papur a gyflwynwyd ochr yn ochr â hwn sy'n rhoi manylion y cynnydd a wnaed o ran datblygu'r berthynas a'r adroddiad a gyflwynwyd yn ddiweddar, sef "Wales World Nation: a Strategic Framework".

## Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd

18. Gwahoddir yr aelodau i:

- Nodi'r sefyllfa ddiweddaraf;
- Ystyried y penderfyniad arfaethedig yng nghyfarfod yr Undeb Ewropeaidd fis Rhagfyr fod Twrci yn gymwys i ddechrau trafodaethau i gael ei derbyn i'r UE (mae hyn eisoes yn bwnc sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd);
- Cytuno y dylem, yn y lle cyntaf, gryfhau ein perthynas â'r aelodau presennol.

Y Goblygiadau Ariannol

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi'n uniongyrchol o'r materion a drafodir yn y papur hwn.

**Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC**
**Prif Weinidog Cymru**
**Cyswllt: Philip Bird, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol. Est 3514**